# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 12
MAI 2008

Diau mai Gŵyl y Pentecost oedd y diwrnod mwyaf dramatig, bywiog a lliwgar yn holl lyfr yr Actau, pan ddisgynnodd yr Ysbryd Glân ar ganlynwyr yr Iesu. Dyma ddiwrnod geni'r Eglwys ac yn ôl yr hanes yr oedd Jerwsalem o dan ei sang, gyda phererinion lawer wedi ymgynnull ar gyfer yr Ŵyl. Ond cofiwn nad peth newydd oedd yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, oherwydd fe geir cyfeiriadau mynych ato yn yr ysgrythurau. Cawn ddarllen am ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd yn llyfr Genesis; wedi llunio Adda, anadlodd Duw yn ei ffroenau anadl einioes; sonia Esecial hefyd am yr Arglwydd yn anadlu anadl newydd yn yr esgyrn sychion yn y dyffryn. Ac wedi i'r Iesu gael ei fedyddio yn yr Iorddonen gan Ioan, fe agorodd y nefoedd a'r ysbryd megis colomen yn disgyn arno. At hynny, pan ymddangosodd Iesu i'w ddisgyblion yn yr oruwchystafell wedi'i atgyfodiad anadlodd egni newydd arnynt gan wireddu yr addewid a wnaed ganddo cyn ei groeshoelio.

Ar y diwrnod cyntaf hwn yn hanes yr Eglwys yr oedd y disgyblion a'r miloedd eraill a oedd yn bresennol yn Jerwsalem yn ymwybodol iawn o ryw nerth anhygoel yn eu plith, fel y bu Cristnogion ar hyd y canrifoedd, yn unigolion ac yn dyrfaoedd, pan brofwyd diwygiadau ar draws y byd. A ydym ni heddiw yn ymwybodol o ddylanwad cyffelyb yn ein bywydau ac a ydym o dan ddylanwad yr Ysbryd? Cofiwn nad yw'r Ysbryd Glân yn gaeth i unrhyw batrwm na chyfnod arbennig. Wrth edrych yn ôl ar hanes yr Eglwys dros y canrifoedd, gwyddom nad yw pob cyfnod wedi profi cyffro'r Sulgwyn cyntaf hwnnw. Na, y mae i'r Eglwys ei chyfnodau di-gyffro, ond eto ar adegau o'r fath y mae'r Ysbryd Glân yn medru bod yr un mor effeithiol a grymus, yn gweithio'n dawel ymhlith ei bobl. Mewn cyfnod felly, ein dyletswydd yw adeiladau ein hunain yng ngwirioneddau'r ffydd a pharhau i hau yr had hyd nes y daw'r cynhaeaf a'r cyffro nesaf. Y mae yna genhadaeth i'w chyflawni gan bawb ohonom.

Dyma'r ffordd y disgrifiodd John Henry Newman, offeiriad oedd yn byw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ei genhadaeth ef yn y byd:

Fe'm crewyd gan Dduw i gyflawni gwasanaeth penodol.
Ymddiriedodd ryw weithgarwch i mi
Nas ymddiriedodd i unrhyw un arall.
Y mae gennyf fy nghenhadaeth-
Efallai na chaf wybod amdani yn y byd hwn,
Ond fe ddywedir wrthyf yn y bywyd nesaf.
Dolen mewn cadwyn ydwyf, dolen rhwng personau.
Nid i ddim y creodd fi.
Gwnaf ddaioni, gwnaf ei waith Ef.

Pob bendith
Judith
47 Glanceulan, Penrhyn-coch. SY23 3HF
Rhif Ffôn : 01970 820920 : E-bost : morris@coedlas.plus.com

**CALENDR MIS MAI 2008**

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis : Robert Dobson<br>4 Mai 2.30yp | Oedfa Gymun |
| 11 Mai<br>10.00yp a 6.00yh | Gymanfa Ganu : Capel y Morfa : Oedfa Deuluol am 10.00yb yng nghwmni Martin Geraint.<br>Oedfa'r Hwyr am 6.00yh. Arweinydd Mr Allan Wynne Jones. Llywydd Mrs Bethan Bryn |
| 18 Mai<br>Clwb Sul: 10.30yb<br>Oedfa Bregeth: 2.30yp | Parchedig Alwyn Daniels, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru |
| 25 Mai 10.30yb<br>Oedfa Bregeth | Gweinidog |
| 1 Mehefin 2.30yp | Gweinidog<br>Neilltuo'r Diaconiaid Newydd ac Oedfa Gymun |

**I'CH DYDDIADUR**

7 Mai : Cyfarfodydd Blynyddol Adran Genhadol y Chwiorydd: Penuel, Bangor. Cyfarfodydd am 2.00yp ac am 5.30yp.
7 Mai : Rihyrsal y Gymanfa : Capel y Morfa am 7yh
7 Mai : Os Mêts : Criw Coleg y Bala : Festri'r Garn am 7yh
11-17 Mai : Wythnos Cymorth Cristnogol
12 Mai : Cinio Bara Caws, Eglwys y Drindod, Aberystwyth. 12.00-1.30yp
16 Mai : Bore Coffi Cymorth Cristnogol, Festri Bethel, Aberystwyth. 10.30-12.30
17 Mai : Cinio'r Tlodion : Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch
19-23 Mai : Siop Cymorth Cristnogol, Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
20-21 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, Penuel, Caerfyrddin.
22 Mai : Os Mêts – Noder ar Nos Iau – Ymweliad â'r Bad Achub yn Aberystwyth am 7.30yh
11 Mehefin: Cinio Cymunedol : Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
11 Mehefin :Cyngerdd Cymorth Cristnogol yn Horeb, Penrhyn-coch : Côr Cantre'r Gwaelod
20 Gorffennaf : Fe fydd ein cenhades gyswllt yn ymweld â Bethel a Horeb ar y Sul hwn.

**Lloffion**

Dymuniadau gorau i:

- bawb a fydd yn sefyll arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf
- Mark Roberts, mab Wendy a Colin, Cae Mawr fydd yn mynd ar daith gyda Chwmni Theatr Arad Goch fel Twm Sion Cati yn y sioe o'r un enw
- Mrs Menna Jenkins sydd yn yr ysbyty
- Gillian Dobson sydd wedi bod yn anhwylus.

**Os Mêts** : Diolch yn fawr am eich cyfraniadau tuag at brynu geifr i Affrica. Codwyd digon o arian i brynu naw gafr!

**Angen Tŷ** : Y mae Rhodri ap Owen(un o fyfyrwyr Bethel) yn chwilio am dŷ i bedwar i logi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Gwibdaith i Lwyndafydd** : Mae Cymdeithas Bethel yn trefnu gwibdaith brynhawn i Lwyndafydd ar Sul 29 Mehefin. Byddwn yn cynnal oedfa yno ac yna yn mynd am de. Croeso cynnes i unrhyw un sydd am ddod. Rhowch wybod i Judith.